TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

HNC Electrical and Electronic Engineering

Yn gryno

Cafodd ein HNCs Peirianneg Lefel 4 eu dylunio mewn ymgynghoriad â'r diwydiant er mwyn cysylltu â'r diwydiant lleol cymaint â phosib, o ran cynnwys ac o ran modd mynychu.

Y nod yw creu peirianwyr gwybodus a chymwys tu hwnt a fydd yn bodloni gofynion diwydiant. Dyma raglen alwedigaethol arbenigol sydd â phwyslais cryf ar y cysylltiad â byd gwaith.

Mae ein cyrsiau HNC Peirianneg yn cynnig sylfaen gadarn yn y prif gysyniadau a sgiliau ymarferol sydd eu hangen yn y sector. Mae'r cwrs, sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol gan gyflogwyr, hefyd yn caniatáu astudio pellach ar lefel gradd a thu hwnt.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...ennill gyrfa mewn Peirianneg Drydanol

...rheiny sy'n ffafrio cyrsiau galwedigaethol, ymarferol

...unrhyw un sydd yn dymuno astudio ymhellach ym maes peirianneg

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

...cymryd y cam nesaf yn eich gyrfa yn y sector Peirianneg

Cynnwys y cwrs

Mae'r cwrs yn cynnig sylfaen gadarn yn y prif gysyniadau a sgiliau ymarferol sydd eu hangen yn y sector.

Byddwch yn astudio unedau, gan gynnwys:

Blwyddyn 1

Gwyddoniaeth Peirianneg
Egwyddorion Trydanol
Mathemateg Peirianneg
Dylunio Peirianneg

Blwyddyn 2

Roboteg a PLCs
Prosiect Diwydiannol
Peiriannau Trydanol
Systemau Analog a Digidol

Byddwch yn dysgu drwy gyfuniad o ddarlithoedd, tiwtorialau a gweithdai ymarferol.

Bydd dysgwyr yn cael eu hasesu drwy waith cwrs ac arholiad.

Gofynion Mynediad

Mae angen ymrwymo'n llawn i fod yn bresennol, yn ogystal â'r gallu i weithio'n rhan o dîm. Dylai fod gennych ddyhead cryf i weithio yn y diwydiant cerbydau modur, glynu at ethos y coleg a bod yn barod i gymryd rhan a gwella lefel eich pynciau academaidd. Ystyrir dysgwyr aeddfed ar sail unigol, yn ddibynnol ar sgiliau a phrofiad.

Gwybodaeth Ychwanegol

Gallwch fynd ymlaen i HND Peirianneg neu Radd Sylfaen berthnasol.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mae cyfleoedd cyflogaeth mewn llu o sefydliadau, o fusnesau rhyngwladol i gwmnïau lleol. Mae nifer o opsiynau gyrfa cyffrous, gan gynnwys:

Peiriannydd Darlledu
Peiriannydd Trydanol
Peiriannydd Rheoli ac Offeryniaeth
Peiriannydd Electroneg
Peiriannydd Systemau Gweithgynhyrchu